

Gwasanaethau Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr

Canllawiau i Fyfyrwyr sy'n defnyddio Darllenwyr mewn Arholiadau

Beth yw Darllenydd?

Darllenydd yw person a fydd yn darllen y canlynol, os gofynnir iddo/iddi:

- y papur arholiad cyfan neu unrhyw ran ohono
- unrhyw ran o atebion.

Yn achos myfyrwyr gyda nam ar y golwg, os gofynnir iddo/iddi, bydd hefyd:

- yn helpu gyda mapiau, diagramau a thablau er mwyn darparu'r wybodaeth y mae'r copi printiedig yn ei roi i ymgeiswyr sy'n gweld;
- yn hysbysu'r myfyriwr am wallau cyflwyno amlwg mewn trawsgrifiad wedi ei eirbrosesu (yn amodol ar ddeilliannau dysgu).

Dylai eich Darllenydd fod yn gyfarwydd â'r pwnc a'r eirfa.

Ydw i'n gymwys i gael Darllenydd?

Bydd angen i chi fod â Chynllun Cefnogi Dysgu Personol er mwyn bod yn gymwys i gael Darllenydd.

Beth yw'r drefn ar gyfer trefnu Darllenydd?

Bydd a oes arnoch angen Darllenydd neu beidio yn dibynnu ar fformat yr asesiad, er enghraifft, bydd ar rai myfyrwyr angen Darllenydd wrth ateb cwestiynau aml-ddewis ond nid ar gyfer cwestiynau ar ffurf traethawd.

Dylech gysylltu â'r Swyddfa Arholiadau bob semester, unwaith y bydd yr amserlenni wedi cael eu cyhoeddi, i drafod eich opsiynau, ac i sicrhau y bydd modd darparu Darllenydd ar eich cyfer. Bydd y Gwasanaethau Anabledd yn anfon e-bost atoch i'ch atgoffa i wneud hyn!

Yna bydd y Swyddfa Arholiadau yn dweud wrth eich ysgol am wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn darparu Darllenydd i chi ym mhob arholiad.

Cyn yr Arholiad

- Pan fo'n bosibl, dylai eich Darllenydd gael cyfle i ddarllen trwy'r papur arholiad ychydig cyn dechrau'r arholiad er mwyn gwirio ynganiad unrhyw eiriau nad yw ef neu hi yn gyfarwydd â nhw.
- Dylech gael sesiwn ymarfer fer gyda'r Darllenydd cyn dechrau cyfnod yr arholiadau.
- Dylech gael gwybod â pha aelod staff i gysylltu os bydd unrhyw broblemau'n codi yn ystod yr arholiad, er enghraifft, pe bai diffyg cyfathrebu. Fel arfer, dyma'r person yn yr ysgol a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Yn Ystod yr Arholiad:

- Ni ddylai defnyddio Darllenydd beri mantais nac anfantais i chi.
- Dylai'r Darllenydd ddarllen yn fanwl ddim ond y cwestiynau a'r cyfarwyddiadau.
- Gall eich Darllenydd, os gofynnwch iddo/iddi, nodi sillafiad unrhyw air sy'n ymddangos yn y papur cwestiynau - fel arall ni ddylent roi sillafiadau.
- Ni ddylai eich Darllenydd egluro nac esbonio ystyr y testun.
- Ni ddylai eich Darllenydd roi cymorth ffeithiol i chi na chynnig unrhyw awgrymiadau
- Gall eich Darllenydd, os gofynnwch iddo/iddi, roi gwybodaeth am faint o amser sydd wedi mynd a faint o amser sy'n weddill.
- Fel arfer, caniateir 25% o amser ychwanegol i chi ar gyfer pob arholiad.

Cwestiynau?

Bydd y Swyddfa Arholiadau (arholiadau@bangor.ac.uk) neu Gynghorydd o'r Gwasanaeth Anabledd (gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk) yn gallu ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn perthynas â darparu Darllenydd.

Sylwer:

Yn achos ymgeiswyr sydd angen Darllenydd ac Ysgrifennydd, gall yr un person gyflawni'r ddwy swyddogaeth.